CYFARFOD COMISIWN FFINIAU LLYWODRAETH LEOL I GYMRU A GYNHALIWYD AR 15 HYDREF 2008 YN YSTAFELL CADW, GWESTY ST. GEORGE'S, LLANDUDNO

Comisiynwyr
Mrs. S G Smith (Cadeirydd)
Mr P J Wood (Dirprwy Gadeirydd)
Y Parch. H M Davies

Ysgrifenyddiaeth
Mr. E H Lewis (Ysgrifennydd) [Rhan]
Mr. S R Halsall
Mr. D Carr
Mr. R Handscomb
Mrs. Abbie Prescott-Bird

1. DATGANIAD BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau newydd.

2. COFNODION CYFARFOD Y COMISIWN A GYNHALIWYD AR 9 MEDI 2008

2.1 Cytunwyd ar y rhain yn ddarostyngedig i fân newidiadau.

3. MATERION YN CODI

Buddiannau Aelodau

3.1 Adroddwyd bod cynnydd ar gyfer penderfynu'r arfer gorau mewn sefydliadau eraill yn parhau a chyflwynir hyn i gyfarfod yn y dyfodol.

Caffael Cynaliadwy

3.2 Roedd yr Ysgrifenyddiaeth wedi cychwyn cymryd rhan yng nghynllun amgylcheddol Y Ddraig Werdd ac roedd yn gweithio i ennill statws lefel 2 y cynllun. Nodwyd hyn.

Arolwg Cymunedol Wrecsam

3.3 Cyhoeddwyd Adroddiad a Chynigion Arolwg Cymunedol pellach Wrecsam o fewn yr amserlen a osodwyd gan Gyfarwyddiadau Cynulliad Cymru. Nodwyd hyn.

Canlyniadau Etholiadau Cynghorau Cymuned

3.4 Dywedwyd bod rhai o gynghorau cymuned Môn wedi'u hepgor o'r tabl ar gam. Maent bellach wedi'u cynnwys ac mae'r rhestr gywir wedi'u hanfon i'r Isadran Noddi.

Cyngor Cymuned Conwy

3.5 Anfonwyd llythyr at Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn cynnig estyn y dyddiad cau ar gyfer cynrychiolaethau i ddiwedd yr wythnos gyntaf ym mis Tachwedd yn hytrach na diwedd mis Tachwedd fel y ceisiwyd yn wreiddiol gan y Cyngor. Hyd yn hyn, ni chafwyd unrhyw ymateb oddi wrth y Cyngor.

Cyfarfod â'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol Cynulliad Cymru

3.6 Nodwyd nad oedd y Comisiwn wedi derbyn unrhyw adborth oddi wrth yr Isadran Noddi o ran cyfarfod yr Aelodau â'r Gweinidog dros Lywodraeth Leol. Yn sgil y materion pwysig a drafodwyd yn y cyfarfodydd hyn, ystyriwyd y dylid cadw cofnod o'r hyn a drafodwyd a dylai hyn gael ei adrodd i gyfarfod nesaf y Comisiwn. **Cytunwyd** i godi'r mater hwn gyda'r Isadran Noddi.

4. AROLWG CYMUNEDOL CAERDYDD – CYNIGION Y CYNGOR

4.1 Dywedwyd bod Cyngor Caerdydd wedi gorffen ei arolwg cymunedol a'i fod wedi rhoi ei adroddiad i'r Comisiwn. Mae'r Ysgrifenyddiaeth wedi cynnal ymweliad safle i'r ardaloedd a gynhwysir yn adroddiad y Cyngor. Mae adroddiad y Cyngor yn cynnwys yr argymhellion canlynol:

- Newid i'r ffin rhwng cymunedau Hen Laneirwg a Trowbridge;
- Newidiadau i enwau presennol Cymunedau Y Rhath a Phlasnewydd.

Roedd yr adroddiad wedi ystyried ac wedi gwrthod cynigion ar gyfer newidiadau hefyd i ffiniau Cymunedau Rhiwbeina, Yr Eglwys Newydd, Y Mynydd Bychan, Llysfaen a Llanisien.

4.2 Ynghylch newid arfaethedig y Cyngor i'r ffin rhwng cymunedau Hen Laneirwg a Trowbridge, dywedwyd bod yr ymweliad safle wedi nodi sawl man lle gellid gwella ychydig ar y ffin arfaethedig o ran mynediad. Yn ogystal, yn rhan fwyaf deheuol y ffin, roedd y Cyngor wedi cynnig trosglwyddo Canopus Close o Hen Laneirwg i Trowbridge er i'r Ysgrifenyddiaeth ystyried y byddai'n well pe trosglwyddir Canopus Close o Hen Laneirwg i Gymuned Tredelerch gan mai'r unig fynediad i dai Canopus Close oedd drwy Dredelerch. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn mabwysiadu gwelliant yr Ysgrifenyddiaeth i newid arfaethedig y Cyngor i'r ffin.

4.3 Roedd Cyngor Caerdydd wedi gwrthod awgrym i ailalinio'r ffin rhwng Cymunedau Yr Eglwys Newydd a Rhiwbeina i drosglwyddo rhes o dai yn Ash Grove o Gymuned Rhiwbeina i Gymuned Yr Eglwys Newydd. Yn ystod yr ymweliad safle, sefydlwyd bod y newid arfaethedig i'r ffin yn hepgor nifer mawr o eiddo tebyg yn Ffordd Caedelyn a'r ardal gyfagos. Ystyriwyd na fyddai'n ddymunol estyn y ffin i gynnwys rhan fwy o Riwbeina yn Yr Eglwys Newydd nag yr awgrymwyd yn wreiddiol. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn derbyn penderfyniad y Cyngor i wrthod y newid awgrymedig.

4.4 Roedd Cyngor Caerdydd wedi gwrthod awgrym i ailalinio'r ffin rhwng Cymunedau Llysfaen a Llanisien er mwyn cynnwys Woodside Court a Mill Road yn Llysfaen. Yn ystod yr ymweliad safle, sefydlwyd nad oedd y ffin awgrymedig yn cynnig unrhyw welliant sylweddol i'r ffin bresennol. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn derbyn penderfyniad y Cyngor i wrthod y newid awgrymedig.

4.5 Roedd Cyngor Caerdydd wedi gwrthod awgrym i ailalinio'r ffin rhwng Cymunedau Y Mynydd Bychan a Rhiwbeina er mwyn cynnwys rhan fawr o eiddo o'r Mynydd Bychan yn Rhiwbeina. Yn ystod yr ymweliad safle, sefydlwyd bod y ffin awgrymedig yn rhannu eiddo o oedran a nodweddion tebyg ac nid ymddangosai'r ffin yn un naturiol. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn derbyn penderfyniad y Cyngor i wrthod y newid awgrymedig.

4.6 Cytunwyd gan fod rhai o'r cynigion yn cynnwys newidiadau nad ymgynghorir ynglŷn â hwy fel rhan o arolwg gwreiddiol y Cyngor, byddai angen proses ymgynghori gyfyngedig bellach. **Cytunwyd** y byddai'r Ysgrifenyddiaeth yn cysylltu â Chyngor Caerdydd er mwyn cytuno ar y broses ymgynghori ychwanegol hon.

5. AROLWG CYMUNEDOL BRO MORGANNWG – CYNIGION DRAFFT

Penarth / Sili

5.1 Roedd yr Ysgrifenyddiaeth wedi ymgymryd ag ymweliad safle er mwyn edrych ar yr anomaledd yn y ffin rhwng Cymunedau Penarth a Sili ac i ganfod os oedd ailaliniad arfaethedig y ffin yn ddichonadwy. Ystyriwyd bod ailalinio'r ffin i fynd y tu cefn i amryw eiddo a dod â hwy yn gyfan gwbl i Gymuned Penarth yn addas. **Cytunwyd** cynnwys y cynnig hwn yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

Pendeulwyn / Llanddunwyd

5.2 Adroddwyd bod Cyngor Cymuned Pendeulwyn wedi darparu map ar gyfer yr Ysgrifenyddiaeth a oedd yn nodi ei newid awgrymedig i'r ffin rhwng eu Cymuned hwy a Cymuned Llanddunwyd er mwyn trosglwyddo Fferm Warren i'w Cymuned hwy. Cadarnhaodd yr ymweliad safle fod y ffin arfaethedig wedi'i diffinio'n glir a bod mynediad i Fferm Warren drwy Bendeulwyn. Fodd bynnag, nid oedd y Comisiwn o'r farn y byddai'r mân newid hwn yn ddymunol er budd llywodraeth leol effeithiol a chyfleus. **Cytunwyd** ceisio barn bellach ar y newid awgrymedig hwn i'r ffin yn rhan o'r Cynigion Drafft.

Y Wig / Saint-y-brid

5.3 Roedd Cyngor Cymuned Y Wig wedi darparu map ar gyfer yr Ysgrifenyddiaeth yn nodi eu newidiadau awgrymedig i ffin eu Cymuned. Dyma hwy:

i. Ailalinio'r ffin i gynnwys dau lwybr yn mynd o Heol Las i bennau'r creigiau yng Nghymuned Y Wig;
ii. Ailalinio'r ffin i gynnwys Fferm Sealand yn Y Wig; ac
iii. Ailalinio'r ffin i gynnwys Ffermydd East a West Monkton yn Y Wig.

5.4 Nododd y comisiwn fod y ddau lwybr a grybwyllwyd ym mhwynt i. uchod naill ai yng Nghymuned Y Wig neu'n ffurfio rhan o'r ffin ac felly nid oedd angen ailalinio'r ffin. O ran Fferm Sealand, er bod mynediad i'r Fferm drwy'r Wig, ystyriwyd bod y ffin bresennol wedi'i diffinio'n glir ac yn well yn enwedig gan na wyddys faint o'r tir cyfagos oedd yn eiddo i'r Fferm. O ran Ffermydd East a West Monkton, ystyriwyd hefyd gan na wyddys faint o'r tir cyfagos oedd yn eiddo i'r Ffermydd, gwell oedd cadw'r ffin bresennol. **Cytunwyd** i fynd ymlaen â'r Adroddiad Cynigion Drafft.

6. AROLWG CYMUNEDOL BLAENAU GWENT – YMWELIAD SAFLE A CHYNIGION DRAFFT

Bryn-Mawr / Nant-y-glo a'r Blaenau

6.1 Adroddwyd y sefydlwyd yn ystod yr ymweliad safle bod newid awgrymedig y Comisiwn i ailalinio'r ffin a gynigiwyd gan Gyngor Cymuned Nant-y-glo a'r Blaenau yn well na ffin awgrymedig y Cyngor gan ei fod yn cadw Clinig ac Ysgol Gynradd Bryn-Mawr yng Nghymuned Bryn-Mawr. Canfuwyd hefyd bod rhan orllewinol y ffin arfaethedig yn gwneud synnwyr gan ei bod yn gwahanu hen adeilad gweithdy oddi wrth yr adeiladau manwerthu mwy newydd i'r de a byddai hefyd yn golygu trosglwyddo depo fysiau i Gymuned Bryn-Mawr sydd ar hyn o bryd yng Nghymuned Nant-y-glo a'r Blaenau ond ceir mynediad iddo drwy Fryn-Mawr yn unig. **Cytunwyd** i gynnwys y ffin arfaethedig hon yn yr Adroddiad Cynigion Drafft.

Cwm / Glynebwy

6.2 Roedd yr Ysgrifenyddiaeth wedi gweld y ffin arfaethedig ac roedd wedi'i diffinio'n eglur. Nid oedd yn datrys y broblem sef bod nifer o adeiladau gerllaw Glynebwy ond roedd mynediad iddynt drwy Cwm yn unig. Sefydlwyd yn ystod yr ymweliad safle nad oedd unrhyw linell glir y tu cefn i'r adeiladau hyn lle y gellid ailalinio'r ffin. **Cytunwyd** na ellid cynnwys yr adeiladau cyfagos yn ailaliniad arfaethedig y ffin a byddai'r Comisiwn yn mabwysiadu'r ffin arfaethedig sy'n dilyn y ffordd i'r gogledd o'r ffin bresennol.

Gogledd Glynebwy / De Glynebwy

6.3 Roedd yr ymweliad safle wedi sefydlu y byddai'r ffin rhwng adrannau etholiadol Gogledd Glynebwy a De Glynebwy yn gwneud ffin gymunedol addas yn amodol ar ddau ailaliniad ger rhes o siopau a gwaith dur nas defnyddir. Awgrymwyd yr ailaliniadau hyn er mwyn ystyried mynediad i'r safleoedd unigol. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn mabwysiadu'r ffin gan gynnwys yr ailaliniadau awgrymedig fel y ffin rhwng Cymunedau arfaethedig Gogledd Glynebwy a De Glynebwy.

Tredegar

6.4 Adroddwyd bod yr ymweliad safle wedi sefydlu bod ailaliniad awgrymedig o'r ffin rhwng Ward Sirhywi a Ward Canolog a Gorllewin Cymuned Tredegar wedi'i diffinio'n eglur. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cynnig yn eu Cynigion Drafft i Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ystyried ailalinio ffin y ward fel yr awgrymir.

Cendl / Bryn-Mawr

6.5 Adroddwyd bod yr ymweliad safle wedi sefydlu bod yr ailaliniad awgrymedig rhwng Cymunedau Cendl a Bryn-Mawr wedi'i diffinio'n eglur a'i bod yn well na'r ffin bresennol gan mai'r unig fynediad i'r eiddo ar ben Ffordd Twyncynghordy oedd drwy Gymuned Cendl. **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cynnwys yr ailaliniad arfaethedig hwn yn eu Cynigion Drafft.

Cendl / Rasau / Badminton

6.6 Mae'r Ysgrifenyddiaeth wedi archwilio'r ffin rhwng adrannau etholiadol Cendl, Rasau a Badminton yng Nghymuned Cendl er mwyn canfod a fyddent yn gwneud ffiniau cymunedol addas. Cyn yr ymweliad safle, nodwyd y gallai sawl rhan o'r ffin gynnwys anomaleddau ac roedd ailaliniadau wedi'u cynnig. Canfuwyd bod yr ailaliniadau awgrymedig yn y rhannau hyn wedi'u diffinio'n eglur ar y ddaear.

Cytunwyd y byddai'r Comisiwn yn mabwysiadu'r ffin gan gynnwys yr ailaliniadau awgrymedig fel y ffin rhwng Cymunedau arfaethedig Cendl, Rasau a Badminton.

7. RHESTR O DERMAU

7.1 Roedd yr Ysgrifennydd wedi drafftio Rhestr o Dermau fel y gofynnwyd mewn cyfarfod blaenorol. Nododd aelodau y ddogfen hon.

8. CYNIGION SAESNEG CLIR

8.1 Adroddwyd bod yr Ysgrifennydd wedi archwilio'r posibiliadau sydd ar gael i'r Comisiwn fabwysiadu arferion Saesneg Clir. Roedd tri dewis ar gael:

- Defnyddio'r llawlyfr Saesneg Clir a'i roi ar waith heb unrhyw gymorth allanol;
- Tanysgrifio i aelodaeth gorfforaethol Ymgyrch Saesneg Clir gan dalu ffi flynyddol am fynediad at yr holl wasanaethau; neu
- Prynu gwasanaethau ad hoc oddi wrth Saesneg Clir fel y bo angen.

8.2 Ystyriwyd y gallai fod yn fuddiol ceisio mabwysiadu arfer da o ffynonellau eraill fel Adrannau Saesneg a Newyddiaduraeth prifysgolion fel Prifysgol Caerdydd ac i wirio hefyd os oes unrhyw hyfforddiant ar gael i aelodau staff ac i Aelodau. Gellir cysylltu â Chyrff eraill a Noddir gan Lywodraeth y Cynulliad er mwyn sefydlu a oes ganddynt hwy bolisïau Saesneg clir.

8.3 **Cytunwyd** y byddai'r Comisiwn yn cymryd y camau canlynol:

- Anfon adroddiad byr (adroddiad diweddar Cynigion Terfynol arolwg cymunedol pellach Wrecsam) i'r Ymgyrch Saesneg Clir at ddibenion meincnodi; ac
- Archwilio'r posibilrwydd o gael cyngor oddi wrth ymgynghorwyr Cysylltiadau Cyhoeddus.

9. AROLWG O'R GOFRESTR RISGIAU

9.1 Nododd y Comisiwn y newidiadau arfaethedig i'r Gofrestr Risgiau a awgrymwyd i adlewyrchu'r sefyllfa gyfredol ynghylch trawsnewid Merlin, meddalwedd Mapio, penodi aelodau a diogelwch swyddfeydd.

9.2 Ystyriwyd bod y risg i amcan y Comisiwn, sef gorffen arolwg etholiadol Cymru gyfan erbyn 2012 (risg, cyfeirnod 9.1 – risg gorfforaethol C), gael ei heffeithio gan oedi cyflwyno Cyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn mynd yn ddifrifol. **Cytunwyd** cael syniad gwell o bryd byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cyflwyno'r Cyfarwyddiadau ar gyfer Cyfarfod Tachwedd y Comisiwn.

9.3 Os byddai'n ymddangos yn annhebygol erbyn cyfarfod mis Tachwedd y byddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gallu cyflwyno Cyfarwyddiadau i'r Comisiwn erbyn diwedd mis Rhagfyr, yna byddai'n rhaid newid asesiad y risg i Tebygolrwydd – 4 / Effaith – 4 a byddai hyn yn gosod y risg ym mharth coch matrics y risgiau corfforaethol. Yna, byddai angen hysbysu'r Cynulliad bod y risg hon bellach wedi mynd yn ddifrifol ac ar frys. Byddai angen paratoi cynllun drwy weithio yn ôl oddi

wrth y dyddiad terfyn ar gyfer yr arolygon er mwyn dangos pa mor ddifrifol mae'r sefyllfa wedi mynd. Yna byddai'r cynllun yn cael ei anfon at y Gweinidog gan esbonio'r sefyllfa a datgan pe na cheir Cyfarwyddiadau'n fuan, yna byddai angen adnoddau ychwanegol ar y Comisiwn i gwblhau'r arolwg.

10. UNRHYW FATER ARALL

10.1 Gosodwyd llythyr oddi wrth Independents@Swansea gerbron y Pwyllgor yn gofyn am eglurhad ar safbwynt y Comisiwn ar Gymuned Townhill. **Cytunwyd** paratoi ateb a'i ddangos i gynghorydd cyfreithiol y Comisiwn cyn dosbarthu'r ateb i Aelodau i'w gymeradwyo.

10.2 Hysbyswyd y pwyllgor y byddai Ian Thomas yn gadael yr Ysgrifenyddiaeth gan ei fod wedi cael swydd yn y Cynulliad a bydd ymarfer recriwtio yn cychwyn yn fuan i benodi ei olynydd. Estynnodd y Comisiwn eu dymuniadau gorau i Mr Thomas.

11 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

11.1 Cytunwyd ar y dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd yn y dyfodol fel a ganlyn:

Dydd Mercher 26 Tachwedd am 10:45 a.m.